**Rhif: WG47814**

Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth) 2023

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft i wneud safonau'r Gymraeg yn gymwys i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth rhwng 15 Chwefror a 5 Ebrill 2023.

Mehefin 2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol

## Trosolwg

Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar y Rheoliadau drafft i bennu safonau Cymraeg ar gyfer ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran o Gymru. Os cânt eu gwneud, bydd y Rheoliadau yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau dŵr i'r cyhoedd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

## Y camau y mae angen eu cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Cymraeg2050
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a'r copïau o holl ddogfennau'r ymgynghoriad, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i ddogfennaeth yr ymgynghoriad: Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth) 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU

**Cynnwys**

1. Cyflwyniad ..... 4
2. Yr Ymgynghoriad ..... 4
3. Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad? ..... 4
4. Crynodeb o'r Ymatebion ..... 4
5. Ymateb Llywodraeth Cymru ..... 10
6. Y Camau Nesaf ..... 11

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth) 2023. Diben yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar y Rheoliadau drafft a fydd yn gwneud safonau'r Gymraeg yn gymwys i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n darparu gwasanaethau i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.

## 2. Yr Ymgynghoriad

Gofynnwyd am farn ar y Rheoliadau drafft yn ystod cyfnod ymgynghori o saith wythnos, rhwng 15 Chwefror a 5 Ebrill 2023. Gan mai hwn oedd yr ail ymgynghoriad ar safonau drafft ar gyfer ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, gwnaethom ymgynghori am gyfnod byrrach na'r arfer, sef saith wythnos.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Gallai ymatebwyr gyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Anfonwyd dolen i'r ymgynghoriad drwy e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau dŵr, rhanddeiliaid ehangach o'r sector dŵr, a rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg. Dywedwyd wrthynt fod croeso iddynt gysylltu â Llywodraeth Cymru pe baent am drafod y terfyn amser ar gyfer ymateb.

## 3. Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad?

Cafwyd 17 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae pob un ohonynt wedi'u hystyried a'u dadansoddi. Cafwyd yr ymatebion gan y grwpiau canlynol â diddordeb:

| Categori o Ymatebwyr | Nifer |
|---|---|
| Aelodau o'r cyhoedd | 13 |
| Cwmnïau dŵr<br>• Dŵr Cymru<br>• Hafren Dyfrdwy | 2 |
| Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg<br>• Comisiynydd y Gymraeg<br>• Cymdeithas yr Iaith | 2 |

Cafwyd 14 o ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein a gyrchwyd drwy wefan Llywodraeth Cymru, a thri ymateb drwy e-bost. Nid yw enwau'r aelodau o'r cyhoedd a ymatebodd wedi'u cynnwys.

## 4. Crynodeb o'r Ymatebion

Nod y ddogfen hon yw cyflwyno'r safbwyntiau a'r themâu cyffredinol a nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn hytrach na chrynhoi pob ymateb unigol. Amlinellir y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i safbwyntiau'r ymatebwyr yn adran 5 isod.

Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi yn ôl y categorïau canlynol: Aelodau o'r cyhoedd, cwmnïau dŵr, rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg.

**Cwestiwn 1**

**A oes gennych unrhyw sylwadau am y safonau cyflenwi gwasanaethau a gynigir yn y rheoliadau?**

Aelodau o'r cyhoedd (13)

Ni chafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan bedwar aelod o'r cyhoedd, a nododd un ymatebwr farn gyffredinol fod y tâl am ddŵr yng Nghymru yn rhy uchel. Nid oedd hyn yn ymddangos fel pe bai'n uniongyrchol berthnasol i'r ymgynghoriad hwn.

Nododd un ymatebydd ei fod yn fodlon ar y safonau fel yr oeddent.

Cyflwynodd pedwar ymatebydd sylwadau a oedd yn gwrthwynebu egwyddor gyffredinol safonau'r Gymraeg a chynnig gwasanaethau yn Gymraeg.

Cyflwynodd tri ymatebydd sylwadau ar gynnwys y rheoliadau, gan gynnig awgrymiadau yn ymwneud yn bennaf â sut y gellid ehangu cwmpas y safonau er mwyn rhoi mwy o hawliau i aelodau'r cyhoedd. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys ymestyn y dyletswyddau yn ymwneud â delio â gohebiaeth, galwadau ffôn, ffurflenni, a derbyn ymwelwyr. Awgrymwyd hefyd y dylid hepgor rhai safonau yn ymwneud â chyfarfodydd rhwng corff a mwy nag un unigolyn gwahoddedig, gan adael dim ond y safon lle y mae'n rhaid i wasanaeth cyfieithu gael ei i ddarparu os yw 10% o'r cyfranogwyr gwahoddedig wedi rhoi gwybod i'r trefnydd eu bod am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Cwmnïau dŵr

Nododd Dŵr Cymru ei fod wedi adolygu'r rheoliadau a'i fod o'r farn bod y safonau yn rhesymol ac yn gymesur. Dywedodd hefyd fod ganddo, fel cwmni sy'n gwasanaethu'r rhan fwyaf o Gymru, ymrwymiad cryf i'r Gymraeg a hanes o gynnig gwasanaethau Cymraeg i gwsmeriaid.

Ni wnaeth Hafren Dyfrdwy ymateb drwy'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, felly ni chafwyd atebion ganddo i'r cwestiynau hyn yn uniongyrchol. Aeth i'r afael â materion yn ymwneud â'r Rheoliadau drafft yn ei ymateb i ymarfer casglu data yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yn ei ymateb, nododd ei bod yn bwysig bod pob cwsmer yn gallu cyfathrebu ag ef yn ei ddewis iaith. Nododd fod ganddo Gynllun Iaith Gymraeg ers i'r busnes gael ei lansio ym mis Gorffennaf 2018, a'i fod o'r farn y gallai safonau'r Gymraeg wella cynhwysiant drwy ei alluogi i ymgysylltu'n fwy effeithiol â chwsmeriaid sy'n gallu siarad Cymraeg.

Fodd bynnag, er nad oedd yn gwrthwynebu unrhyw un o'r safonau yn benodol, nododd Hafren Dyfrdwy mai ei brif bryder oedd sut y byddai'r safonau'n cael eu rhoi ar waith a pha effaith y byddai hynny'n ei chael ar wariant, y byddai'n rhaid iddi gael ei hadlewyrchu ym miliau cwsmeriaid. Byddai unrhyw gostau ychwanegol yr aed iddynt o ganlyniad i'r safonau yn cael eu trosglwyddo i'w gwsmeriaid drwy eu biliau,

felly nododd ei fod yn awyddus i leihau effaith ariannol cydymffurfio â'r safonau, yn enwedig o ystyried yr argyfwng costau byw presennol. Gall Hafren Dyfrdwy drafod materion yn ymwneud â rhoi'r safonau ar waith â'r Comisiynydd pan fydd y Comisiynydd yn ymgynghori â'r cwmni ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft.

Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg

Nododd Comisiynydd y Gymraeg a Chymdeithas yr Iaith fod llawer o'r safonau a oedd wedi'u cynnwys mewn rheoliadau safonau blaenorol wedi'u heithrio o'r Rheoliadau hyn. Roedd y safonau y cyfeiriwyd atynt gan y naill ymatebydd neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn cynnwys: rhai safonau yn ymwneud â gohebiaeth, galwadau ffôn, dogfennau, safonau yn ymwneud â dyfarnu contractau; safonau a oedd yn gosod dyletswyddau ar gyrff i roi bathodynnau i siaradwyr Cymraeg ddangos eu bod yn siarad yr iaith; a safonau yn ymwneud â chywirdeb ieithyddol.

Gofynnodd Comisiynydd y Gymraeg am safon newydd a fyddai'n ei galluogi i osod dyletswydd ar gwmnïau i gyhoeddi fersiwn Gymraeg o ffurflen os na fyddent yn gwybod a oedd y person a fyddai'n derbyn y ffurflen am gael fersiwn Gymraeg. Deilliodd yr argymhelliad hwn o'i phrofiad o osod safonau ar gyrff sy’n dod o dan rheoliadau safonau blaenorol. Roedd rhai o’r cyrff hynny wedi nodi anawsterau wrth gofnodi dewisiadau iaith cwsmeriaid ar eu systemau.

Mynegodd y ddau ymatebydd bryderon am y safonau yn ymwneud â llunio dogfennau, yn benodol na fyddai'r safonau yn gosod dyletswyddau ar gwmnïau i lunio mwy o ddogfennau yn Gymraeg na'r hyn a wneir ar hyn o bryd o dan eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Mynegodd Cymdeithas yr Iaith bryder y gallai rhai o'r safonau yn ymwneud ag ardaloedd derbynfa arwain at oedi cyn delio ag ymholiad Cymraeg. Mynegodd Cymdeithas yr Iaith hefyd bryder nad oedd unrhyw safonau yn y Rheoliadau i ymdrin â hawliau gweithwyr, recriwtio na hyfforddiant. Fodd bynnag, gan fod y Rheoliadau hyn yn gymwys i gategorïau o gwmnïau sy'n dod o dan Atodlen 7 ac 8 i'r Mesur, dim ond safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau cadw cofnodion a safonau atodol y gellir eu gwneud yn benodol gymwys iddynt. Yn wahanol i'r Rheoliadau blaenorol, ni all y Rheoliadau drafft hyn gynnwys safonau llunio polisi, gweithredu, na hyrwyddo.

Croesawodd Comisiynydd y Gymraeg y safonau newydd a baratowyd ar gyfer cyfleuster sgwrsio ar-lein, a nododd fod hwn yn gam cadarnhaol a oedd yn adlewyrchu'r ffyrdd newydd y mae cyrff yn eu dewis i gyfathrebu â'u cwsmeriaid. Yn yr un modd, croesawodd Cymdeithas y Gymraeg y safonau yn ymwneud ag apiau, a nododd y gall y safonau helpu i normaleiddio'r Gymraeg mewn datblygiadau technolegol.

### Cwestiwn 2

**Mae Rhan 3 Atodlen 1 y Rheoliadau yn cynnwys dehongliadau mewn perthynas â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaethau. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffordd y dehonglir y safonau yn Rhan 3?**

Aelodau o'r cyhoedd

Ni chafwyd ymateb gan saith ymatebydd i'r cwestiwn hwn. Ailadroddodd un ymatebydd ei ymateb i gwestiynau eraill, a oedd yn nodi barn gyffredinol bod y tâl am ddŵr yng Nghymru yn rhy uchel. Nid oedd hyn yn ymddangos fel pe bai'n uniongyrchol berthnasol i'r ymgynghoriad hwn.

Cyflwynodd tri ymatebydd sylwadau a oedd yn gwrthwynebu egwyddor gyffredinol safonau'r Gymraeg.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid defnyddio diffiniad ehangach o "dderbynfa".

Awgrymodd un ymatebydd nifer o ddiffiniadau amgen, ynghyd â safonau ychwanegol i ymdrin â gwasanaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau drafft, fel cyhoeddi datganiadau i'r wasg, systemau annerch y cyhoedd, a dosbarthu bathodynnau "Iaith Gwaith".

Cwmnïau dŵr

Yn ei ymateb, nododd Dŵr Cymru fod y Rheoliadau yn rhesymol ac yn gymesur. Nododd ei fod yn croesawu paragraff 27, Rhan 3, Atodlen 1, sy'n amlinellu amodau lle na fyddai'n rhaid i gwmnïau gydymffurfio â'r safonau mewn argyfwng.

Ni wnaeth Hafren Dyfrdwy unrhyw sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn.

Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg

Nododd Comisiynydd y Gymraeg y byddai enghraifft o argyfwng mewn perthynas â pharagraff 27, Rhan 3, Atodlen 1 yn ddefnyddiol. Nododd y Comisiynydd hefyd fod risg y gallai cwmnïau ddehongli'r term "cyfarfod ar fyr rybudd" ym mharagraff 32 yn eang, ac y byddai enghraifft yn ddefnyddiol yn y cyd-destun hwnnw hefyd.

Mynegodd y Comisiynydd a Chymdeithas yr Iaith bryderon am y diffiniad o ohebiaeth ym mharagraff 29, at ddibenion safonau 2 a 4, ac awgrymodd y byddai diffiniad ehangach yn ymestyn y ddyletswydd y tu hwnt i "ohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan system".

Nid oedd Cymdeithas yr Iaith yn cytuno â pharagraffau 38(a) a 41, sy'n nodi nad yw safonau yn ymwneud â gwefannau, a chyfleusterau sgwrsio ar-lein, yn gymwys i ddogfennau y darperir dolen iddynt, deunydd hysbysebu, na chlipiau fideo a sain.

**Cwestiwn 3**

**A oes gennych unrhyw sylwadau ar y safonau cadw cofnodion a'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol a gynigir yn y rheoliadau?**

Aelodau o'r cyhoedd (13)

Ni chafwyd ymateb gan saith ymatebydd i'r cwestiwn hwn. Ailadroddodd un ymatebydd ei ymateb i gwestiynau eraill, a oedd yn nodi barn gyffredinol bod y tâl am ddŵr yng Nghymru yn rhy uchel.

Cyflwynodd tri ymatebydd sylwadau a oedd yn gwrthwynebu egwyddor gyffredinol safonau'r Gymraeg.

Nododd un ymatebydd y dylai'r holl gofnodion gael eu cadw yn uniaith Saesneg. Fodd bynnag, dylid nodi yn y cyd-destun hwn nad yw safonau cadw cofnodion yn ymwneud â chyfrwng iaith cofnodion a gedwir.

Gofynnodd un ymatebydd am i'r safonau cadw cofnodion gael eu hymestyn fel y gellid gosod dyletswyddau ar gwmnïau dŵr i sefydlu systemau i fonitro a hyrwyddo'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig yn Gymraeg, yn ogystal â chreu dyletswydd i gwmnïau gyhoeddi manylion cwynion a gafwyd yn eu Hadroddiadau Blynyddol.

Cwmnïau dŵr

Ymatebodd Dŵr Cymru drwy nodi ei fod o'r farn bod y safonau cadw cofnodion a'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn rhesymol ac yn gymesur, a'i fod eisoes yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei gydymffurfiaeth â'r cynllun iaith Gymraeg cyfredol.

Ni wnaeth Hafren Dyfrdwy unrhyw sylwadau ar y safonau cadw cofnodion na'r safonau yn ymwneud â materion atodol.

Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg

Nododd Comisiynydd y Gymraeg awgrymiadau i baratoi safonau ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff sefydlu systemau i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, ac i hyfforddi staff ar sut i ddelio â chwynion.

**Cwestiwn 4**

**Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth) yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddent yn eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?**

Aelodau o'r cyhoedd

Ni chafwyd ymateb gan saith ymatebydd i'r cwestiwn hwn. Ailadroddodd un ymatebydd ei ymateb i gwestiynau eraill, a oedd yn nodi barn gyffredinol bod y tâl am ddŵr yng Nghymru yn rhy uchel.

Cyflwynodd tri ymatebydd sylwadau a oedd yn gwrthwynebu egwyddor gyffredinol safonau'r Gymraeg.

Mynegodd un ymatebydd bryder y byddai'r safonau yn cynyddu gwariant cwmnïau dŵr, ond nododd hefyd y gallai'r safonau godi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod Cymru yn wlad sydd â'i hiaith ei hun.

Nododd un ymatebydd y gallai'r safonau helpu'r amgylchedd pe bai cwsmeriaid yn gallu dewis cael dogfennaeth mewn un iaith yn unig.

Cwmnïau dŵr

Nododd Dŵr Cymru y bydd rhoi'r safonau ar waith yn cynnig cyfle iddo atgyfnerthu ei ymrwymiad i'r Gymraeg a rhoi mwy o eglurder i'w gwsmeriaid ynghylch y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg. Cred y gallai hyn roi mwy o hyder i gwsmeriaid ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.

Nododd Hafren Dyfrdwy y byddai cefnogaeth weladwy i'r Gymraeg yn gwella canfyddiadau siaradwyr Cymraeg ohono yn y gymuned ac yn gwella cynhwysiant drwy ei alluogi i ymgysylltu'n fwy effeithiol â chwsmeriaid sy'n gallu siarad Cymraeg.

Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg

Ni wnaeth Comisiynydd y Gymraeg na Chymdeithas yr Iaith ateb y cwestiwn hwn yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd ymatebion y ddau ohonynt yn croesawu'r Rheoliadau mewn egwyddor ac yn croesawu'r cyfleoedd y byddai'r safonau yn eu cynnig i siaradwyr Cymraeg gael gwasanaethau Cymraeg.

## Cwestiwn 5

**Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu addasu'r rheoliadau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Aelodau o'r cyhoedd

Ni chafwyd ymateb gan saith ymatebydd i'r cwestiwn hwn. Ailadroddodd un ymatebydd ei ymateb i gwestiynau eraill, a oedd yn nodi barn gyffredinol bod y tâl am ddŵr yng Nghymru yn rhy uchel.

Nododd un ymatebydd y gallai'r safonau greu cyfleoedd cyflogaeth i siaradwyr Cymraeg.

Cyflwynodd chwe ymatebydd sylwadau a oedd yn gwrthwynebu egwyddor gyffredinol safonau'r Gymraeg, a chyfeiriodd un ohonynt yn benodol at ddiffyg tystiolaeth o'r galw presennol am wasanaethau Cymraeg

Cwmnïau dŵr

Yn ei ymateb, nododd Dŵr Cymru ei fod yn cydnabod pwysigrwydd gosod esiampl o ran defnyddio'r Gymraeg fel un o brif gyflogwyr Cymru ac un o gwmnïau angori Llywodraeth Cymru. Cred fod mabwysiadu'r Safonau a'u rhoi ar waith yn gyfle arall i

ddangos sut y gall sefydliad mawr gynnig gwasanaeth Cymraeg yn llwyddiannus a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn ei ymateb, nododd Hafren Dyfrdwy fod ganddo eisoes 15 o gwsmeriaid wedi'u cofrestru fel siaradwyr Cymraeg ar ei gofnodion. Fodd bynnag, gyda safonau'r Gymraeg ar waith, mae'n disgwyl i fwy o gwsmeriaid nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith.

Rhanddeiliaid polisi'r Gymraeg

Ni wnaeth Comisiynydd y Gymraeg na Chymdeithas yr Iaith ateb y cwestiwn hwn yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd ymatebion y ddau ohonynt yn croesawu'r Rheoliadau mewn egwyddor ac yn croesawu'r cyfleoedd y byddai'r safonau yn eu cynnig i siaradwyr Cymraeg gael gwasanaethau Cymraeg.

## 5. Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyflwyno ymateb. Gan mai dogfen grynhoi ydyw, efallai nad yw'r holl faterion a amlinellwyd yn yr ymatebion wedi'u hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi'i ystyried yn ofalus. Nid yw absenoldeb materion neu awgrymiadau penodol yn y crynodeb hwn yn golygu eu bod wedi'u diystyru.

Ers yr ymgynghoriad, gwnaed y newidiadau canlynol i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth) 2023 (a elwir bellach yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023):

- Safonau ynghylch galwadau ffôn: Mae dwy safon newydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023 (safonau 9 a 10). Mae safon 9 yn gosod dyletswydd ar gorff i ddelio â galwad i'w llinell gymorth ymholiadau cyfrif yn Gymraeg, ond dim ond hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg. Mae safon 10 yn gosod dyletswydd ar gorff i ddelio â galwad i'w linell gymorth gwasanaeth yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os bydd yr aelod o'r cyhoedd yn dymuno hynny. Mae cynnwys y safonau hyn yn rhoi amrywiaeth mwy eang o safonau i'r Comisiynydd ddewis ohonynt wrth osod safonau ar gwmnïau gwahanol.

- Mae rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaethau wedi'u diwygio i nodi "*pan fo'r gynulleidfa a ragwelir **yn cynnwys** aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru*", yn hytrach na "*pan fo'r gynulleidfa a ragwelir **yn** aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru*". Mae hyn yn ei gwneud hi'n glir nad oes angen i'r gynulleidfa gyfan a ragwelir fod yn aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru er mwyn i'r safonau fod yn gymwys. Gallai safon fod yn gymwys pe bai rhan o'r gynulleidfa a ragwelir yng Nghymru, a rhan ohoni mewn gwlad arall.

- Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni: mae safon newydd wedi'i chynnwys (safon 33) sy'n gosod dyletswydd ar gyrff i anfon ffurflen Gymraeg os nad ydynt yn gwybod a yw aelod o'r cyhoedd yn dymuno cael fersiwn Gymraeg.

- Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff: mae'r gair "newydd" wedi'i hepgor o safon 47 oherwydd ystyriwyd ei fod yn ddiangen.

- Mae paragraff 32 o Ran 3 o'r Rheoliadau wedi'i ddiwygio i gynnwys *"corff yn cynnal ymholiadau o ddrws i ddrws"* fel enghraifft lle na fyddai safonau 16-17C yn gymwys.

## 6. Y Camau Nesaf

Caiff Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023 eu gosod gerbron y Senedd a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo drwy bleidlais mewn cyfarfod llawn. Ni fydd y Rheoliadau, os byddant yn dod i rym, yn cael effaith uniongyrchol ar gyrff ac ni fyddant, ynddynt eu hunain, yn creu hawliau i aelodau o'r cyhoedd. Bydd y Rheoliadau yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i'w gwneud yn ofynnol i gyrff gydymffurfio â'r safonau.

Mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar gyrff drwy Hysbysiad Cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau yn pennu amrywiaeth o safonau y gellid eu gosod ar gyrff. Mae'n bosibl mai dim ond mewn rhai amgylchiadau y bydd yn rhaid i gorff gydymffurfio â'r safon – yn dibynnu ar yr hyn a nodir yn ei Hysbysiad Cydymffurfio. Bydd yr Hysbysiad Cydymffurfio hefyd yn nodi'r dyddiad y mae'n rhaid i'r corff gydymffurfio â'r safon.